YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

Mai 5 2023

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Project Llywodraeth Cymru**
Mae tri o'n disgyblion (Ifan a Gwen bl.13 a Freya bl.11) wedi bod yn gweithio ar broject i greu hysbysebion er mwyn denu mwy o bobl o gefndir BAME i'r proffesiwn addysgu. Roedd neges glir i'r hysbysebion, a llwyddon bortreu'r broblem mewn ffordd greadigol a deniadol. Pleser oedd cymryd grŵp o ddisgyblion iau'r ysgol i premiere yr hysbysebion yn y Theatr 'Riverfront' yng Nghasnewydd yng nghwmni Mr Jeremy Miles y Gweinidog Addysg.



*Premiere hysbysebion clwb amrywiaeth*




*Corb Davies yn derbyn ei wobr*

**Llwyddiant Celf i ddisgybl blwyddyn 12**
Llongyfarchiadau anferthol i Corb Davies o Fl.12 sydd wedi ennill y gystadleuaeth 'Young Cartoonist of the Year' dan 18 oed gyda'r Amgueddfa Cartwn Llundain a'r 'British Cartoonists Association'. Mae dy waith yn arbennig iawn!

**Llwyddiant Cwpan Prydeinig**
Llongyfarchiadau enfawr i dîm rygbi blwyddyn 9 ar fuddugoliaeth penigamp yn Ysgol Rugby yn rownd derfynol Cwpan Ysgolion Prydain. Diolch didwyll i'r hyfforddwyr a rhieni am eu holl waith cefnogi, ac i'n disgyblion wnaeth deithio i'r gem er mwyn cefnogi'r tîm. Cafwyd clod i'r tîm nid yn unig am eu dawn ar y maes chwarae ond hefyd am eu hymddygiad, eu hwyliau da a'u cwrteisi.



*Pencampwyr Cwpan Ysgolion Ysgolion Tim XV Bl 9*

**Cyflwyniad ClassCharts - gwella cyfathrebu gyda ein rhieni**
O'r 15fed o Fai ymlaen mi fyddwn yn defnyddio ap newydd o'r enw ClassCharts er mwyn cyfathrebu gwybodaeth am ddisgyblion i rieni. Mi fydd hyn yn cymryd lle'r ap 'SIMS in touch' sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mi fydd llythyr yn eich cyrraedd (trwy SIMS in touch) gyda chod unigryw i'ch plentyn. Bydd angen i bob rhiant lawr lwytho ap Classcharts (parent) ac yna mewnbynnu'r cod. Gobeithiwn y bydd ClassCharts yn trawsnewid y wybodaeth rydych yn ei dderbyn am fywyd ysgol eich plentyn ac yn gwneud y broses yn llawer mwy clir a hawdd i'w ddefnyddio. Bydd gwybodaeth megis presenoldeb, clod a chamau, llythyron, gwaith cartref a llawer mwy i gyd yn cael eu cyfathrebu trwy'r un lle. Rydym yn awyddus iawn i bob un rhiant cael mynediad at yr ap yma ar gyfer lawnsio'n llawn yn Mis Medi. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn!




*Prif Swyddogion 23/24*

**Prif Swyddogion Newydd**
Hoffwn longyfarch 4 aelod o flwyddyn 12 sydd wedi cael eu hethol yn Brif Swyddogion ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Yn dilyn cystadleuaeth frwd y 4 buddugol oedd Awen Dwyer, Iolo Grant, Haf Prys-Evans a Lewys Dafydd. Pob lwc i chi dros y flwyddyn nesaf. Hoffwn hefyd fanteisio ar gyfle i ddiolch i brif swyddogion 22/23 (Gwen, Dafydd, Elen a Luned) am eu holl brwdfrydedd, egni a gwaith caled dros Ysgol Glantaf.

**Llwyddiant pêl fasged**
Llongyfarchiadau enfawr i dîm pêl fasged dan 18 am eu llwyddiant diweddar wrth iddynt ddod yn Bencampwyr Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Diolch i'r athrawon am hyfforddi ac am deithio'r holl ffordd i Fangor ar gyfer y rownd derfynol. Da iawn ferched!




*Pencampwyr Cenedlaethol Pel fasged dan 18*

**Ymgyrch elusennol blwyddyn 8**
Llwyddodd blwyddyn 8 i godi £2700 ar gyfer yr Apêl Ysbyty Plant trwy nifer o weithgareddau codi arian. Yn gyntaf roedd nifer yn y flwyddyn wedi cwblhau tawelwch nawdd ac yna cymerodd yr holl flwyddyn rhan mewn taith gerdded nawdd. Da iawn bawb!

**Hunan-werthusiad Dull Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol**

Mae'r Ysgol wrthi yn hunanwerthuso lles emosiynol a meddyliol cymuned yr ysgol. Mae'r dull ysgol gyfan yn cydnabod pwysigrwydd amgylchedd ac ethos ysgol ac felly byddwn yn casglu barn dysgwyr, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr er mwyn cyd-weithio gyda'n gilydd fel cymuned ysgol i wella lles yr ysgol. Isod mae dolen i holiadur rhieni, bydd canlyniadau'r holiadur yn darparu trosolwg eang ar gyfer datblygu dull ysgol gyfan tuag at les emosiynol a meddyliol.
**Gofynwn i chi gwblhau'r holiadur, os gwelwch yn dda erbyn dydd Gwener Mai 19eg.**
https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k4Xr3qyyy4xOmA64fCu4avZUREdOWktCMzRaV1FJNEdSVEdQWlVFVUUxQy4u

**Cyngerdd yr Urdd: 18 Mai**
Mae tocynnau ar gael nawr ar gyfer Cyngerdd yr Urdd ar 18 o Fai i godi arian i'r criw fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri dros hanner tymor. Mae'r holl docynnau nawr ar gael ar ParentPay heb gyfyngiad ar y nifer o docynnau y gallwch eu prynu ac edrychwn ymlaen at noson arbennig iawn yng nghwmi ein disgyblion.

**Arholiadau**
Fel y gwyddoch mae arholiadau TGAU a Safon Uwch ar y gweill, felly dymunwn yn dda i'n holl ddysgwyr yn eu gwaith adolygu.  Hoffwn hefyd hysbysu byddwn yn cynnal arholiadau mewn pynciau craidd ar gyfer Bl. 7-9 ar y 15-23 o fis Mai. Pob lwc i bawb!

Yn gywir,

Dyfrig G Rees
Dirprwy Bennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf




*Ysbyty Plant Arch Noa yn derbyn arian nawdd Glantaf*